

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Mawrth 8 Gorffennaf 2025, 2pm-4pm



Llawr Gwaelod Uned 3, Scott Harbour, Cei Britannia, Butetown, Caerdydd, CF10 4PJ

<u>Roedd y rhai oedd yn bresennol</u>	
Aelodau'r Bwrdd: Y Cyngorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Suzanne Rankin Claire Beynon Paul Orders Sarah McGill David Letellier Gareth Evans Geraint Gwyn Cerys Milltir Sheila Hendrickson-Brown Eirian Evans	Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF) Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Rheolwr Grŵp Caerdydd a Chaerffili, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC) Cyfarwyddwr Cymunedau, Partneriaethau ac Atal, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd Pennaeth Uned Gyflenwi Prawf (UGP) y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)
Ymddiheuriadau: Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Emma Cooke Fin Monahan Marc Atwell Emma Wools Dan Jones	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (GPPIau), Gwyddonwyr Iechyd a Datblygu Gwasanaethau Cymunedol, BIPCaF Prif Swyddog Tân, GTADC Prif Uwch-arolygydd, HDC Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) De Cymru Pennaeth Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais, SCHTh
Hefyd yn bresennol: Gareth Newell Sian Sanders Abigail Streeter Sarah Tipping Miki Miyata-Lee Cath Doman	Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Pennaeth Diogelwch a Chydlynid Cymunedol, CC Swyddog Cynllunio a Gwella, CC Pennaeth Partneriaethau Strategol ac Ymgysylltu, BIP Caerdydd a'r Fro Uwch Swyddog Pobl a Lleoedd, CNC Cyfarwyddwr, Tîm Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Jonny Currie	Ymgynghorydd Locwm mewn Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
Dr Ayla Cosh	Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro, BIP Caerdydd a'r Fro
Victoria Whitchurch	Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Arbenigol Cymunedol, Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol, BIPCaF
Matt Evans	Rheolwr Gweithredol Tai Arbenigol, CC
Laura Garvey-Cubbon	Rheolwr Gweithredol Partneriaethau a Chydgomisiynu, CC
Anna Graham	Rheolwr Prosiect, BIP Caerdydd a'r Fro a CC
Nick Forbes	Cyn-Arweinydd Cyngor Dinas Newcastle a Chadeirydd Dinasoedd Craidd
Chris Murray	Cyn-Gyfarwyddwr Dinasoedd Craidd

Nifer	Eitem Agenda	
1.	Croeso / Ymddiheuriadau Agorodd y Cynghorydd Thomas y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.	
2.	Cofnodion a Chamau Gweithredu Cofiodd y Cynghorydd Thomas fod cyfarfod diwethaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC) wedi digwydd yn y Deml Heddwch yn ystod Cynhadledd Flynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (BPRh). Ymunodd yr arbenigwr polisi cyhoeddus Stephen Taylor ag aelodau'r BGC, a rannodd ganfyddiadau o'i adolygiad o effeithiolrwydd y BGC ac amlinellodd gyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd cryfach drwy'r dull 'Total Place'. Cytunodd Gareth Newell a Cath Doman i ddatblygu cynigion i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Nododd y Cynghorydd Thomas y byddai diweddariad ar gynnydd yn cael ei ddarparu fel rhan o'r eitem nesaf. Cytunodd y BGC i gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Mai 2025.	
3.	Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd 2024/25 a Diweddariad Total Place <u>Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd 2024/25</u> Cyflwynodd Gareth Newell Adroddiad Blynyddol cyntaf Caerdydd ar gyfer Cynllun Lles Lleol 2023-28. Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gofyn i BGCau adrodd am gynnydd yn erbyn eu Cynlluniau Lles mewn Adroddiad Blynyddol erbyn diwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn. Nodwyd bod Adroddiad Blynyddol 2024/25 wedi'i ddatblygu gydag arweinwyr grwpiau a byrddau partneriaeth. Mae'n cynnwys trosolwg strategol, fesul Amcan Lles, o waith sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, gydag atodiadau ategol yn cynnwys diweddariad manwl ar bob blaenoriaeth unigol, yn ogystal ag adroddiad ar y dangosyddion canlyniadau. Cynhyrchwyd hefyd 'Adroddiad Trosolwg Ymgynghori' diwygiedig, sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gan bartneriaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cynigiodd Gareth y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol, yn amodol ar unrhyw sylwadau terfynol gan aelodau'r BGC. Nododd y dylid ystyried yr Adroddiad Blynyddol fel pwynt cyfeirio gwerthfawr i lywio datblygiad blaenoriaethau BGC/BPRh yn y dyfodol.	

Nifer	Eitem Agenda	
	<u>Total Place: Camau Nesaf</u> Yn ogystal, rhoddodd Gareth ddiweddariad i aelodau BGC ar y dull Total Place, gan gynnwys y tri chyfle strategol ar gyfer datblygu pellach, ochr yn ochr â'r tri syniad 'lefel nesaf' i wella gweithrediad ac effaith BGC: <i>Cyfle 1: Grwpiau Blaenoriaeth</i> Mae'r cyfle hwn yn canolbwyntio ar nodi cymorth ar gyfer carfan fach o unigolion sy'n achosi costau cyhoeddus anghymesur uchel ar draws gwasanaethau lluosog oherwydd anghenion cymhleth, gan arwain at asemiadau lluosog a dyblygu. Mae'r dull Total Place yn cydnabod y byddai model mwy effeithiol yn golygu sefydlu perthynas barhaus gyda'r unigolion neu'r aelwydydd hyn trwy un pwynt cyswllt neu Dîm Amlddisgyblaethol (MDT) integredig agos. Byddai hyn yn helpu i symleiddio gwasanaethau a lleihau nifer y trafodion ar wahân gyda gwahanol gyrff sector cyhoeddus. Nodwyd bod Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (GCICaF), sydd i fod i gyflwyno yn ddiweddarach yn yr agenda, eisoes yn ymgorffori llawer o'r egwyddorion hyn yn ymarferol trwy eu gwaith gydag unigolion mewn grwpiau cynhwysiant iechyd a nodwyd. Cynigiwyd bod partneriaid BGC a BPRh yn cydweithio yn nodi rhestr fer o grwpiau risg uchel a allai elwa o'r dull hwn yn ogystal. <i>Cyfle 2: Lleoedd Blaenoriaeth</i> Mae'r cyfle hwn yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn cymunedau i gryfhau atal a lleihau'r galw hirdymor ar wasanaethau cyhoeddus - gan gydnabod bod angen dulliau wedi'u teilwra ar wahanol feysydd yn seiliedig ar gyd-destun ac anghenion lleol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU, ym mis Mehefin 2025, fel rhan o'r Adolygiad o Wariant, wedi cyhoeddi lansio rhaglen ariannu newydd ar gyfer 25 o gymdogaethau arloesol dynodedig - pob un i dderbyn hyd at £20 miliwn dros y degawd nesaf. Nod y buddsoddiad yw cryfhau cydlyniant cymdeithasol mewn 'cymunedau sydd wedi'u gadael ar ôl', gyda Chaerdydd wedi'i henwi fel un o'r ardaloedd a ddewiswyd. Cynigiwyd adeiladu ar y gwaith a arweinir gan BGC yn Nhrelái a Chaerau, gan roi pwyslais arbennig ar ddulliau ataliol o gefnogi plant a phobl ifanc. <i>Cyfle 3: Bod heb waith</i> Mae'r cyfle hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yng Nghaerdydd drwy adeiladu ar Wasanaeth Cyngor i Mewn i Waith Caerdydd. Mae'r dull yn cynnwys ymgysylltu â sefydliadau angor a chynnig cymorth hygyrch, cymunedol trwy ganolfannau cymdogaeth. Nodwyd bod dyfodol y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd hirdymor seilwaith gwaith a chynghor I	

Nifer	Eitem Agenda	
	Mewn i Waith Caerdydd. Er bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal lefelau cyllid CFFG am y tair blynedd nesaf, mae diffyg eglurder o hyd ynglŷn â sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i Gymru ac yn benodol i Gaerdydd. Mae opsiynau yn cael eu datblygu i lunio model cyflawni yn y dyfodol, ond bydd ei raddfa a'i uchelgais yn dibynnu i raddau helaeth ar lefel y cyllid a sicrheir. Cynigiwyd y dylid ymgysylltu â phartneriaid dros yr haf a dechrau'r hydref, gyda thrafodaeth ffurfiol i'w dwyn i'r BGC yn yr hydref. <i>Lefel Nesaf 1: Gweithrediad BGC</i> Mae'r syniad 'lefel nesaf' yn ymwneud â'r BGC yn gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i nodi nifer fach o flaenoriaethau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cydweithio ac i gyfieithu'r rhain yn brosiectau ar y cyd. Cynigiwyd bod y camau nesaf yn cynnwys ymgysylltu ag aelodau BGC ac BPRh ar faterion blaenoriaeth dros yr haf, gyda phapur BGC/BPRh ar flaenoriaethau ar y cyd i'w gyflwyno i'r ddau fwrdd yn yr hydref. <i>Lefel Nesaf 2: Gwybodaeth a Dadansoddi ar y Cyd</i> Mae'r syniad hwn yn cyfeirio at adeiladu ar arbenigedd data presennol y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor i ganolbwyntio ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt fel grwpiau cost uchel, a'r nod yn y pen draw yw creu cronfa ddata sengl sy'n hygyrch i bob gwasanaeth cyhoeddus. Cynigiwyd bod y camau nesaf yn cynnwys gweithio trwy lywodraethu presennol y Rhanbarth Gofal Digidol i ganolbwyntio gwaith data ar y cyd ar flaenoriaethau gwasanaeth cyhoeddus y cytunwyd arnynt. Yn dibynnu ar gwmpas a graddfa'r rhaglen waith, efallai y bydd angen datblygu achos busnes i sicrhau capasiti data ychwanegol - naill ai trwy ail-alinio adnoddau presennol neu gyflwyno gallu newydd. <i>Lefel Nesaf 3: Rhaglen Arweinyddiaeth Caerdydd</i> Mae aelodau'r BGC yn cyfrannu at raglenni datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth eu gilydd ac yn cymryd rhan ynddynt, gan ddatblygu hyn yn y pen draw i fod yn Raglen Arweinyddiaeth Caerdydd bwrpasol wedi'i theilwra i arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol. Cynigiwyd gwahodd, fel y camau nesaf, aelodau BGC i gyflwyno a chymryd rhan yng nghyfarfodydd Fforwm Uwch Reolwyr Cyngor Caerdydd a Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth y Cyngor yn ystod hydref/gaeaf 2025/26. Yn ei dro, nodwyd y byddai Cyngor Caerdydd yn ymrwymo i gymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth cyfatebol a gynigir gan sefydliadau partner eraill BGC. Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:	

Nifer	Eitem Agenda	
	• Mynegodd aelodau y BGC gefnogaeth gref i ddatblygu rhaglen arweinyddiaeth draws-sefydliadol. Cynigiodd Claire Beynon fewnbwn i iechyd y cyhoedd i Raglen Datblygu Arweinyddiaeth Cyngor Caerdydd; Tynnodd Gareth Evans sylw at lansiad Academi Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Tân, gydag arweiniad strategol ar waith; Cynigiodd Paul Orders ymgysylltu ag arweinwyr AD i ddatblygu cynnig arweinyddiaeth ar y cyd; a nododd y Cyngorydd Thomas y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi Rhaglen Arweinyddiaeth Caerdydd os dangosir arweinyddiaeth leol, gan gyfeirio at drafodaethau diweddar ynghylch llwybrau recriwtio a gyrfa a rennir. • Awgrymodd Paul ei bod yn amserol ailedrych ar y berthynas rhwng y BGC a'r BPRh, i symleiddio trefniadau llywodraethu a chryfhau aliniad strategol, tra rhannodd Cath Doman fod yr BPRh yn archwilio sut i ddyfnhau ei aeddfedrwydd a'i effaith a'i fod yn awyddus i alinio â'r BGC ar flaenoriaethau trawsnewidiol mawr lle gallai uchelgais ar y cyd gael effaith sylweddol. • Gan gyfeirio at y rhaglen cymdogaethau arloesol, nododd y Cyngorydd Thomas fod Trelái a Chaerau mewn sefyllfa dda ac yn barod am fuddsoddi. Pwysleisiodd Sheila Hendrickson-Brown bwysigrwydd sicrhau bod y gwaith sy'n mynd rhagddo yn Nhrelái a Chaerau o fudd i gymunedau eraill ledled Caerdydd. Pwysleisiodd Sheila y dylid rhannu dysgu o'r cymdogaethau hyn a'i gymhwyso'n weithredol mewn mannau eraill er mwyn osgoi gadael ardaloedd eraill ar ôl. Cytunodd y Cyngorydd Thomas, gan dynnu sylw at yr angen i gydnabod arfer da sy'n digwydd mewn cymunedau eraill ledled Caerdydd, fel Butetown a Grangetown. Cytunodd y BGC i wneud y canlynol: • Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2024/25, a'i atodiadau ategol, i'w gyhoeddi, yn amodol ar unrhyw sylwadau gan aelodau'r BGC, gyda sylwadau i'w cyflwyno i Ysgrifenyddiaeth y BGC erbyn dydd Mercher 16 Gorffennaf 2025. • Nodi Adroddiad Trosolwg Ymgynghori 2025. • Cymeradwyo'r camau nesaf arfaethedig ar gyfer hyrwyddo'r dull Total Place.	
4.	Blaenoriaethu'r Blynyddoedd Cynnar: Cynllun Gweithredu Rhanbarthol Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cytunodd y BGC i ddatblygu Cynllun Gweithredu wedi'i lywio gan yr argymhellion yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (CIC) 2024, sy'n pwysleisio pwysigrwydd	

Nifer	Eitem Agenda	
	hanfodol blaenoriaethu'r blynyddoedd cynnar fel sylfaen ar gyfer lles gydol oes. Cyflwynodd Jonny Currie y Cynllun Gweithredu Rhanbarthol arfaethedig, a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid ar draws Caerdydd a'r Fro. Mae'r cynllun yn nodi cyfres o ymrwymïadau a chatau gweithredu sefydliadol gyda'r nod o ddiogelu iechyd a lles plant yn ystod y cyfnod hanfodol hwn o ddatblygiad. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi camau gweithredu blaenoriaeth ar draws y meysydd canlynol: - Arloesi Digidol - Brechu - Iechyd y Geg - Bwyd Da a Symud - Bwydo ar y fron Cadarnhaodd Jonny y bydd cynnydd yn cael ei adolygu ar ddau gyfngwng allweddol - ar ôl 6 mis (Medi 2025) ac eto ar ôl 12 mis (Ebrill 2026) - i werthuso'r cyflawniad yn erbyn y camau y cytunwyd arnynt. Bydd y pwyntiau adolygu hyn yn rhoi cyfle i fyfyrïo ar gynnydd, ystyried gweithgareddau ychwanegol a allai gryfhau'r effaith, a sicrhau bod y cynllun yn esblygu'n strategaeth hirdymor gadarn ar gyfer datblygiad y blynyddoedd cynnar. Gofynnir i sefydliadau partner gyflwyno tystiolaeth o: - Gynnydd yn erbyn camau gweithredu cytunedig - Unrhyw waith ychwanegol a wneir y tu hwnt i'r ymrwymïadau - Unrhyw wahaniaeth o'r cynllun, ynghyd ag esboniad o'r rhesymau neu'r heriau sylfaenol a wynebwyd Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC: • Croesawodd Claire Beynon ymrwymiad y BGC i symud ymlaen â'r Cynllun Gweithredu, gan ei ddisgrifio fel y cyfeiriad cywir. Ymatebodd Claire i ymholiad ar fonitro cynnydd trwy gadarnhau bod adroddiadau'r CIC yn y dyfodol yn cynnwys atodiadau sy'n crynhoi'r cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol. Cadarnhaodd Claire barodrwydd ei thîm i gydlynw diweddariadau ac adrodd yn ôl i'r BGC ar gyflawni yn erbyn pob gweithred. • Croesawodd y Cynghorydd Thomas strwythur diffiniedig y Cynllun Gweithredu, gan nodi y gallai helpu i osod cyfeiriad a sicrhau cyflawniad diriaethol. Awgrymodd y Cynghorydd Thomas ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol (DPlau) fel gwiriad synnwyr ymarferol, gan gydnabod, er efallai nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn dal pob lifer, mae'n bwysig monitro'r rhai y maent yn eu gwneud.	

Nifer	Eitem Agenda	
	• Mynegodd Suzanne Rankin gefnogaeth gref i'r cynllun ac argymhellodd gynnwys set fach o brif ddangosyddion - fel tri neu bedwar mesur allweddol - i olrhain cynnydd yn ystyron. • Sylwodd Gareth Newell y gall perfformiad system gyfan fod yn anodd ei fesur, yn enwedig mewn meysydd trawsbynciol fel "Bwyd Da a Symud". Awgrymodd fod partneriaid yn cymryd amser i ystyried sut orau i fynd i'r afael â rheoli perfformiad mewn meysydd o'r fath. Cytunodd y BGC i wneud y canlynol: • Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Blynnyddoedd Cynnar Rhanbarthol arfaethedig, gyda phwyntiau adolygu ar 6 ac ar 12 mis.	
5.	Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd Cyflwynodd Dr Ayla Cosh, Matt Evans ac Anna Graham ddiweddariad ar ehangu Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd Caerdydd, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu model iechyd a gofal cymdeithasol pwrpasol, integredig ar gyfer grwpiau cynhwysiant iechyd diffiniedig - poblogaethau sy'n wynebu rhai o'r canlyniadau iechyd gwaethaf yn y ddinas. Mae hyn yn dilyn cyflwyniad blaenorol i'r BGC ym mis Ebrill 2024, lle rhannwyd trosolwg cychwynnol, gan gynnwys y rhesymeg dros wella gwasanaethau presennol a'r weledigaeth hirdymor ar gyfer dull mwy cynhwysol a chydgyssylltiedig. Darparwyd trosolwg o'r model cyflawni, sy'n cynnwys tri cham: • Cam 1: Mewnosod ac ehangu elfennau allgymorth a mewngymorth y gwasanaeth presennol. • Cam 2: Sefydlu canolfan gydlynw sy'n cynnig iechyd, tai a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer grwpiau a nodwyd, gyda chefnogaeth tîm amlddisgyblaethol a gwasanaethau partner cyd-leoli. • Cam 3: Comisiynu gwelyau gofal canolraddol, a gychwynnwyd o bosibl fel rhan o Gam 2 neu'n gynharach, yn amodol ar drefniadau addas o lety a model gwasanaeth. Rhannodd y tîm adborth ansoddol sy'n nodi arwyddion cynnar o ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff. Yn ogystal, cyflwynwyd dadansoddiad meintiol, gan gymharu canlyniadau gweithgaredd ac iechyd ar draws dwy garfan dros gyfnod o flwyddyn (2024–2025): • Dangosodd Carfan A (420 o unigolion sy'n ymwneud â GCICF ers 2023) welliannau nodedig, gan gynnwys: - Lleihau ymweliadau yn yr Uned Achosion Brys (UAB) - Amser byrrach wedi'i dreulio yr UAB	

Nifer	Eitem Agenda	
	- Llai o achosion 'Heb aros' - Gostyngiad mewn derbyniadau nad ydynt yn ddewisol - Llai o ddiwrnodau gwely nad ydynt yn ddewisol • Dangosodd carfan B (180 o unigolion a nodwyd yn ddiweddar gan GCICF yn 2024) lefelau gweithgaredd uwch, a nodwyd yn ôl y disgwyl o ystyried eu hymgysylltiad mwy diweddar â'r gwasanaeth. Mae'r cynnydd hefyd yn tynnu sylw at gyrhaeddiad cynyddol darpariaeth sy'n seiliedig ar gynhwysiant ac effaith gynnar cysylltu unigolion, sydd heb eu gwasanaethu yn flaenorol, â chymorth. Cofnododd y ddwy garfan gynnydd mewn apwyntiadau cleifion allanol cymunedol - 99% ohonynt yn gysylltiedig ag iechyd meddwl. Tynnwyd sylw hefyd at heriau'r prosiect a'r atebion arfaethedig. Un her allweddol yw'r anhawster o rannu data ar draws sefydliadau partner. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cynigiodd y tîm archwilio datblygu system 'Golwg Sengl o'r Oedolyn', wedi'i anelu'n benodol at gefnogi unigolion sy'n profi digartrefedd. Her arall yw nodi ystâd addas i fodloni gofynion llawn Cam 2. Fel ateb interim ymarferol, cynigiwyd cyd-leoli gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol presennol o fewn y Ganolfan Dewisiadau Tai, gan ganiatáu i'r tîm dreialu dulliau integredig a gwerthuso beth sy'n gweithio tra bod atebion llety tymor hwy yn cael eu hystyried. Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC: • Croesawodd y Cynghorydd Thomas y cynnydd a wnaed ar Wasanaethau Cynhwysiant Iechyd, gan ei ddisgrifio fel enghraifft gyntaf gref o'r dull Total Place. Nododd y Cynghorydd Thomas y gostyngiadau calonogol yn y defnydd o wasanaethau ymhlith Carfan A ac awgrymodd fod canlyniadau tebyg yn debygol o gael eu gweld yng Ngharfan B gydag ymgysylltu pellach. • Canmolodd Suzanne Rankin y gwaith a'r cyflwyniad. Cododd Suzanne bryder ynghylch y cysyniad o osgoi costau, gan nodi bod arbedion anaml yn cael eu gwireddu fel cronfeydd echdynnadwy. Gan ddychwelyd at egwyddorion Total Place, pwysleisiodd yr angen am well dealltwriaeth o wariant cyfredol ar draws gwasanaethau wrth ymateb i'r garfan ac awgrymodd y byddai tystiolaeth ariannol gryfach yn helpu i atgyfnerthu'r achos. Gofynnodd Suzanne a ellid cymharu dangosyddion canlyniadau cyfredol â rhai o ddinasoedd craidd eraill i gryfhau meincnodi. • Tynnodd Paul Orders sylw at y ffaith bod angen darn ehangach o waith - yn enwedig ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol - y dylid ei ymgorffori yn yr achos busnes cyffredinol.	

Nifer	Eitem Agenda	
	- Ystyriodd Sarah McGill werth model gwasanaeth interim Cam 2 a phwysleisiodd, er gwaethaf ei natur dros dro, y dylai ei egwyddorion - yn enwedig yr ymrwymiad i ddod â gwasanaethau yn uniongyrchol i gymunedau - lywio unrhyw atebion tymor hir. - Cynigiodd Eirian Evans enghraifft gadarnhaol o'r gwasanaeth prawf, gan nodi y byddai unigolion a fu'n ymwneud â'r rhaglen yn debygol o fod wedi aildroseddu heb gymorth. Canmolodd effeithiolrwydd y dull gweithredu. - Cynigiodd y Cynghorydd Thomas y dylid rhoi i swyddogion y Cyngor a'r Bwrdd lechyd y dasg o ddatblygu camau ymarferol i fwrw ymlaen â'r camau arfaethedig. Cytunodd y BGC i wneud y canlynol: - Parhau i gefnogi a blaenoriaethu'r cyfeiriad teithio ar gyfer y Prosiect Ehangu Cynhwysiant lechyd, gan gynnwys gweithredu'r peilot Cam 2 dros dro. - Cymeradwyo'r cynnig i ddatblygu Golwg Sengl o'r Oedolyn ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd a nodi llwybr cyllido addas i'w weithredu.	
6.	Unrhyw Fater Arall Nodwyd y papurau canlynol: - Cynllun Amddiffyn lechyd Caerdydd a'r Fro 2024/26 - Cynllun Strategol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Caerdydd a Bro Morgannwg - Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu - Diweddariad ar yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd	
7.	Asesiad o Berfformiad Panel Cyngor Caerdydd - Trafodaeth gydag Aelodau'r BGC Ymunodd Nick Forbes, cyn Arweinydd Cyngor Dinas Newcastle a Chadeirydd Dinasoedd Craidd, a Chris Murray, cyn Gyfarwyddwr Dinasoedd Craidd ag aelodau'r BGC. Nodwyd bod eu presenoldeb yn rhan o Asesiad Panel Cymheiriaid Cyngor Caerdydd, proses statudol a gynhelir bob pum mlynedd i werthuso perfformiad y Cyngor. Nododd y Cynghorydd Thomas, fel rhan o'r asesiad, y byddai Nick a Chris yn arwain trafodaeth gydag aelodau'r BGC, gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth a rôl y BGC. Tynnwyd sylw at y drafodaeth fel cyfle i aelodau rannu myfyrdodau a mewnwleidiadau.	

Nifer	Eitem Agenda	
	Er mwyn galluogi sgwrs agored a gonest, gadawodd cynrychiolwyr y Cyngor y cyfarfod ar y pwynt hwn.	
Diwedd	Cynhaliwyd y cyfarfod yn Scott Harbour, datblygiad partneriaeth sy'n trawsnewid hen adeilad swyddfa yn dai cymdeithasol o ansawdd uchel. Ar ôl y cyfarfod, gwahoddwyd mynychwyr i ymuno â thaith o amgylch adeilad Scott Harbour i archwilio'r safle a dysgu mwy am effaith y prosiect.	